Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymchwil gymdeithasol
Rhif: 20/2015

www.cymru.gov.uk

# **Polisïau e-sigaréts:**
# Arolwg o weithleodd yng Nghymru

**Polisïau e-sigaréts:**
Arolwg o weithleoedd yng Nghymru

**Krishan Kawol ac Ian Jones**
**Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi**
**Llywodraeth Cymru**

Am wybodaeth bellach cysylltwch ag:

Ian Jones

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays, Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost : ian.jones2@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 26 Mawrth 2015

ISBN 978 1 4734 3323 6

© Hawlfraint y Goron 2015

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/

## Cynnwys


Rhestr o dablau a ffigurau 2

**Canfyddiadau allweddol 3**

**1. Cyflwyniad 4**

**2. Dulliau 6**

**3. Canfyddiadau 8**

3.1 Proffil sampl 7

3.2 Ymwybyddiaeth o e-sigaréts yn cael eu defnyddio ar y safle 9

3.3 Polisïau ar wahardd y defnydd o e-sigaréts 10

3.4 Rhesymau dros beidio â chael polisi e-sigaréts 11

3.5 Rhesymau dros gael polisi e-sigaréts 13

3.6 Sut y datblygwyd polisïau e-sigaréts 14

3.7 Pwy sy’n cael eu cynnwys yn y polisïau e-sigaréts 15

3.8 Lleoliadau sy'n dod o dan bolisïau e-sigaréts 16

3.9 Sut ydych chi'n monitro a gorfodi'r polisi 17

3.10 Effeithiolrwydd canfyddedig polisïau e-sigaréts 18

3.11 Bwriadau i wneud newidiadau i bolisïau e-sigaréts 19

3.12 Newidiadau i'r safle ar gyfer defnyddwyr e-sigaréts 20

**4. Trafodaeth 22**

Atodiad A: Cwestiynau'r arolwg 25

Atodiad B: Ymatebion yn ôl awdurdod lleol 29

## Rhestr o dablau a ffigurau

**Tablau**


| | | |
|---|---|---|
| Tabl 3.1 | Maint y cyflogwyr yn sampl yr arolwg | 9 |
| Tabl B.1 | Beth yw enw eich awdurdod lleol? | 29 |


**Ffigurau**


| | | |
|---|---|---|
| Ffigur 3.1 | Ydych chi'n ymwybodol o e-sigaréts yn cael eu defnyddio ar y safle? | 9 |
| Ffigur 3.2 | Oes gennych chi bolisi sy'n gwahardd y defnydd o e-sigaréts ar y safle, neu ydych chi'n bwriadu cyflwyno polisi? | 10 |
| Ffigur 3.3 | Os nad oes gennych bolisi e-sigaréts, pam? | 11 |
| Ffigur 3.4 | Beth yw'r rhesymau dros gael polisi neu ddatblygu polisi? | 13 |
| Ffigur 3.5 | Sut y datblygwyd eich polisi e-sigaréts? | 14 |
| Ffigur 3.6 | Pwy sy’n cael eu cynnwys yn y polisi? | 15 |
| Ffigur 3.7 | Sut mae eich polisi'n gwahardd y defnydd o e-sigaréts yn y lleoliadau canlynol? | 16 |
| Ffigur 3.8 | Sut ydych chi'n monitro a gorfodi'r polisi? | 17 |
| Ffigur 3.9 | Pa mor effeithiol fu eich polisi e-sigaréts wrth wahardd y defnydd o e-sigaréts? | 18 |
| Ffigur 3.10 | Ydych chi’n bwriadu gwneud unrhyw newidiadau i'ch polisi e-sigaréts? | 20 |

## Canfyddiadau allweddol

- Cafodd pob gweithle sy'n rhan o'r mentrau Cymru Iach ar Waith, Safon Iechyd Corfforaethol neu Iechyd y Gweithle Bach ei wahodd i gymryd rhan yn yr arolwg hwn, a oedd yn anelu at gasglu tystiolaeth ynglŷn â gweithredu polisïau e-sigaréts. Cafwyd 294 o ymatebion o'r 1,507 o weithleoedd a wahoddwyd (cyfradd ymateb o 20 y cant).

- Dywedodd dros hanner o'r cyflogwyr mawr (51 y cant) fod e-sigaréts yn cael eu defnyddio ar y safle, o gymharu â chwarter (26 y cant) o'r cyflogwyr bach a chanolig.

- Roedd gan bron i dri chwarter o'r cyflogwyr mawr (73 y cant) bolisi sy'n gwahardd y defnydd o e-sigaréts, o gymharu â thua thraean (36 y cant) o'r cyflogwyr bach a chanolig .

- Y prif reswm dros ddatblygu polisi oedd i ddod â'r defnydd o e-sigaréts o dan y polisi di-fwg cyfredol (79 y cant o'r cyflogwyr mawr a 59 y cant o'r cyflogwyr bach a chanolig ) ac er mwyn helpu i'w orfodi (71 y cant o'r cyflogwyr mawr a 59 y cant o'r cyflogwyr bach a chanolig).

- Roedd normaleiddio ysmygu i'w weld yn llai o bryder, a 33 y cant o'r cyflogwyr mawr a 29 y cant o'r cyflogwyr bach a chanolig yn dweud eu bod wedi cyflwyno'r polisi oherwydd bod e-sigaréts yn gwneud ysmygu tobaco'n fwy derbyniol.

- Roedd bron pob polisi e-sigaréts yn y gweithle ymhlith cyflogwyr bach a chanolig a chyflogwyr mawr yn cynnwys staff (99 y cant). Roedd rhwng wyth a naw o bob deg polisi hefyd yn cynnwys cleientiaid/cwsmeriaid, y cyhoedd, cyflenwyr/contractwyr ac ymwelwyr eraill.

- Oherwydd y negeseuon gwrthdrawiadol ynglŷn ag e-sigaréts, dywedodd rhai gweithleoedd yr hoffent dderbyn canllawiau clir gan Lywodraeth Cymru a chyrff iechyd cyhoeddus.

## 1. Cyflwyniad

Mae'r Papur Gwyn Iechyd Cyhoeddus 'Gwrando arnoch chi – Mae eich iechyd yn bwysig'[1] yn nodi cyfres o gynigion ar gyfer deddfwriaeth i helpu i wella a diogelu iechyd a lles pobl yng Nghymru ymhellach.

Un o'r cynigion yn y Papur Gwyn yw cyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus caeedig yng Nghymru. Mae'r cynnig yn mynd i'r afael â phryderon bod defnyddio e-sigaréts yn tanseilio’r rheoliadau di-fwg, a'u gwneud yn fwy anodd eu gorfodi.

Mae hefyd yn adlewyrchu pryderon ymhlith rhai ymarferwyr iechyd cyhoeddus a sefydliadau rhyngwladol fel Sefydliad Iechyd y Byd (SIB)[2] y gallai e-sigaréts ail-normaleiddio ysmygu. Fodd bynnag, ni dderbynnir y safbwyntiau hyn gan bawb[3], ac mae'r gwahanol ddehongliadau o'r dystiolaeth wedi cael eu crynhoi yn drafodaeth rhwng y rhai sydd o blaid e-sigaréts fel ffordd o leihau niwed tobaco, a'r rhai sy'n fwy gochelgar eu hagwedd[4].

Er mwyn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn a llywio'r broses ddeddfwriaethol, datblygodd Llywodraeth Cymru arolwg ar-lein ar bolisïau e-sigaréts, a'r ffordd maent yn cael eu gweithredu mewn gweithleoedd ar draws Cymru. Roedd y cwestiynau yn arolwg yn canolbwyntio ar ddarganfod a oedd gan weithleoedd bolisi e-sigaréts neu beidio; pam bod polisi wedi cael ei ddatblygu; a beth mae'r polisi'n ei gynnwys. Bwriad yr arolwg oedd rhoi rhywfaint o dystiolaeth sylfaenol i grëwyr polisïau ynglŷn ag:

- ymwybyddiaeth o’r defnydd o e-sigaréts ar safleoedd gwaith;
- a oes gan y gweithle bolisi e-sigaréts;
- y rhesymau dros benderfynu datblygu polisi, neu beidio â gwneud;

[1] http://gov.wales/consultations/healthsocialcare/white-paper/?status=closed&lang=cy
[2] Confensiwn Fframwaith SIB ar Reoli Tobaco. Sesiwn chwech, Moscow, Ffederasiwn Rwsia, 13-18 Hydref 2014.
[3] Gweler, er enghraifft: McNeill, A. et al (2014). ‘A critique of a World Health Organization-commissioned report and associated paper on electronic cigarettes’, *Addiction*, 109(12): 2128-2134.
[4] Gweler, er enghraifft: Fairchild, A.L. and Bayer, R. (2015). ‘Smoke and fire over e-cigarettes’, *Science*, 347(6220): 375-376

- natur y polisïau a’r hyn maent yn ei gynnwys;
- a oedd gweithleoedd yn defnyddio polisi er mwyn gorfodi'r ddeddfwriaeth ddi-fwg gyfredol; ac
- i ba raddau roedd gweithleoedd yn credu bod e-sigaréts yn normaleiddio ymddygiad yn ymwneud ag ysmygu.

## 2. Dulliau

Cafodd pob gweithle sy'n rhan o rwydwaith Cymru Iach ar Waith[5], neu sy'n dilyn cynlluniau gwobrwyo Safon[6] Iechyd Corfforaethol neu Iechyd y Gweithle[7] Bach ei wahodd i gymryd rhan yn yr arolwg hwn (ceir yr holiadur yn atodiad A). Oherwydd prinder amser ac adnoddau ar gyfer yr arolwg hwn, dewiswyd y fframwaith sampl hwn gan ei fod yn cynnwys rhwydwaith sefydlog o weithleoedd ar draws Cymru gyfan, ynghyd â chysylltiadau e-bost sydd eisoes ar gael. Anfonwyd dolen gyswllt i'r arolwg ar-lein, trwy ddefnyddio meddalwedd SNAP, i weithleoedd sy'n rhan o'r mentrau Cymru Iach ar Waith, Safon Iechyd Corfforaethol ac Iechyd y Gweithle Bach. Roedd yr holiadur ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Anfonwyd e-bost atgoffa un wythnos cyn dyddiad cau'r arolwg i annog ymatebion.

Cynlluniwyd yr arolwg fel y gellid ei gwblhau'n gyflym ac er mwyn lleihau'r baich a oedd ar ymatebwyr. Nid oedd meddalwedd yr arolwg yn gorfodi ateb i'r rhan fwyaf o'r cwestiynau, felly, gallai ymatebwyr ddewis i beidio ag ymateb pe bai hynny'n well ganddynt. Roedd nifer o'r cwestiynau yn yr arolwg yn caniatáu i ymatebwyr gynnwys sylwadau pellach, a cheir detholiad o'r rhain yn yr adroddiad er mwyn rhoi cipolwg o'r safbwyntiau a fynegwyd gan gyflogwyr bach a chanolig a chyflogwyr mawr.

Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng 10 a 26 Medi 2014, a derbyniwyd ychydig o ymatebion ar ôl y dyddiad hwn. Cafodd cyfanswm o 1,507 o weithleoedd yng Nghymru eu gwahodd i gymryd rhan yn yr arolwg. Derbyniwyd 294 o ymatebion dilys.

[5] Fe'i cyflwynir mewn partneriaeth gan Lywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Caerdydd. Y bwriad yw lleihau absenoldeb o'r gwaith oherwydd salwch trwy hyrwyddo iechyd a lles, cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a ffordd iach o fyw. Gweler http://www.healthyworkingwales.com/

[6] Menter i annog cyflogwyr i wella iechyd eu gweithlu a'u sefydliad. Gweler http://gov.wales/topics/health/improvement/work/corporate/?lang=cy

[7] Y marc ansawdd cenedlaethol ar gyfer iechyd a lles yn y gweithle i fusnesau a sefydliadau sy’n cyflogi llai na 50 o bobl. Gweler http://gov.wales/topics/health/improvement/work/small/?lang=cy

Mae'r bennod ganlynol yn cyflwyno canlyniadau a chanfyddiadau'r arolwg ynglŷn â’r defnydd o e-sigaréts a pholisïau yn y gweithleoedd y cafwyd ymateb ganddynt.

# 3. Canfyddiadau

## 3.1 Proffil sampl

Derbyniwyd cyfanswm o 294 o ymatebion dilys i'r arolwg, o'r 1,507 o weithleoedd a wahoddwyd (cyfradd ymateb o 20 y cant). Roedd hyn yn cynnwys 213 o gyflogwyr bach a chanolig (hyd at 249 o weithwyr) ac 81 o gyflogwyr mawr (250 o weithwyr neu fwy). Yn yr adroddiad hwn, cyflwynir canfyddiadau ar gyfer cyflogwyr bach a chanolig a chyflogwyr mawr – oherwydd maint isel yr is-samplau, nid oedd yn ymarferol rhannu'r categorïau hyn ymhellach.

Bwriad yr arolwg hwn oedd asesu polisïau e-sigaréts mewn gweithleoedd sy'n rhan o fentrau Cymru Iach ar Waith, Safon Iechyd Corfforaethol ac Iechyd y Gweithle Bach. Oherwydd y cyfraddau ymateb a'r gwahaniaeth yn y cyfansoddiad rhwng y sampl hon a chyflogwyr Cymru yn gyffredinol, ni ddylid dehongli'r canfyddiadau hyn o reidrwydd fel rhai sy’n gynrychiadol o bob gweithle ar draws Cymru.

Fel y dengys Tabl 3.1 (isod), o gymharu â ffigurau a amcangyfrifir ar gyfer Cymru gyfan mae cyflogwyr bach heb gynrychiolaeth ddigonol yn sampl yr arolwg, tra bod cyflogwyr canolig a mawr â gormod o gynrychiolaeth (mae'r nifer fawr o ficrofusnesau yng Nghymru'n bennaf gyfrifol am hyn[8]). Yn ogystal, er bod llai nag un y cant o gyflogwyr yng Nghymru yn sefydliadau sector cyhoeddus, roedd 45 y cant o'r atebion a dderbyniwyd yn yr arolwg hwn o weithleoedd yn y sector cyhoeddus.

[8] Mae bron 95 y cant o fentrau preifat yng Nghymru â llai na deg o weithwyr (gweler) http://gov.wales/docs/statistics/2014/141023-size-analysis-welsh-business-2014-en.pdf)

**Tabl 3.1: Maint y cyflogwyr yn sampl yr arolwg**


| Maint y cyflogwr | Sampl yr arolwg | | Amcangyfrifon ar gyfer Cymru [a] | |
|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % |
| Bach (0-49) | 162 | 55 | 227,400 | 98 |
| Canolig (50-249) | 51 | 17 | 2,100 | 1 |
| Mawr (250+) | 81 | 28 | 1,700 | 1 |
| CYFANSWM | 294 | 100 | 231,200 | 100 |

(a) Seilir amcangyfrifon ar 'Ddadansoddiad o Faint y Busnesau' Llywodraeth Cymru (2014) a'r tyb bod y rhan fwyaf o sefydliadau sector cyhoeddus yn gyflogwyr mawr.

## 3.2 Ymwybyddiaeth o e-sigaréts yn cael eu defnyddio ar y safle

Gofynnwyd i weithleoedd a oeddent yn ymwybodol o e-sigaréts yn cael eu defnyddio ar safle. Fel y dengys Ffigur 3.1, dywedodd dros hanner o'r cyflogwyr mawr (51 y cant) fod e-sigaréts yn cael eu defnyddio ar y safle, o gymharu â chwarter (26 y cant) o'r cyflogwyr bach a chanolig (CBaCh).

**Ffigur 3.1: Ydych chi'n ymwybodol o e-sigaréts yn cael eu defnyddio ar y safle?**





N=294 (CBaCh = 213; Mawr (81)

### 3.3 Polisïau ar wahardd y defnydd o e-sigaréts

Gofynnwyd i weithleoedd a oedd ganddynt bolisi sy'n gwahardd y defnydd o e-sigaréts neu a oeddent wrthi'n datblygu polisi.

Roedd gan bron i dri chwarter o'r cyflogwyr mawr (73 y cant) bolisi e-sigaréts, ac 16 pellach wrthi'n datblygu polisi. O gymharu, roedd gan tuag un traean (36 y cant) o'r cyflogwyr bach a chanolig bolisi, ac 11 y cant pellach wrthi'n datblygu polisi (Ffigur 3.2).

**Ffigur 3.2: Oes gennych chi bolisi sy'n gwahardd y defnydd o e-sigaréts ar y safle, neu ydych chi'n bwriadu cyflwyno polisi?**





N=294 (CBaCh= 213; Mawr (81)

### 3.4 Rhesymau dros beidio â chael polisi e-sigaréts

Gofynnwyd i weithleoedd nad oeddent wedi ystyried polisi, neu oedd wedi penderfynu peidio â chyflwyno polisi, beth oedd y rheswm dros hyn. O restr o atebion gosod, y rheswm a roddwyd gan 44 y cant oedd nad yw pobl yn defnyddio e-sigaréts yn eu gweithle – dywedodd 18 y cant nad oeddent wedi cael yr amser i ddatblygu polisi hyd yn hyn. Y rheswm a roddwyd gan ychydig dros un o bob deg oedd eu bod yn cefnogi'r defnydd o e-sigaréts i helpu i roi'r gorau i ysmygu, a'u bod yn ystyried y defnydd o e-sigaréts yn llai niweidiol nag ysmygu tobaco(Ffigur 3.3).

**Ffigur 3.3: Os nad oes gennych bolisi e-sigaréts, pam?**




N=121 (CBaCh = 112; Mawr (9).

Cyfunir cyflogwyr bach a chanolig a chyflogwyr mawr yma oherwydd y nifer fawr o'r cyflogwyr mawr nad oedd ganddynt bolisi, ac nad ydynt wrthi'n datblygu polisi.

Dywedodd sylwadau pellach, gan amlaf gan gyflogwyr bach a chanolig, nad oedd y defnydd o e-sigaréts yn broblem yn y gwaith, ac nad yw'r un o'u gweithwyr yn ysmygu tobaco nac yn defnyddio e-sigaréts.

> "Nid oes gennym weithwyr sy'n ysmygu yn y gweithle ac felly nid wyf wedi ystyried polisi e-sigaréts." **CBaCh**

> "Nid oes yr un aelod o'n staff yn defnyddio e-sigaréts felly nid yw'r mater wedi codi. Pe bai angen byddem yn ystyried ymestyn ein polisi di-fwg." **CBaCh**

Roedd rhesymau eraill dros beidio â datblygu polisi'n cynnwys anawsterau wrth wneud felly gan fod y cyflogwr yn gweithio mewn mwy nag un wlad, a'r ffaith nad oes angen polisi gan fod e-sigaréts yn cael eu trin yn yr un modd â sigaréts tobaco.

Roedd ymatebwyr hefyd yn gofyn am eglurder a chanllawiau ynglŷn â'r defnydd o e-sigaréts.

> “Byddai safbwynt ar gyfer Cymru gyfan yn ddefnyddiol [...] yn aml mae'r cyngor sydd ar gael i gyflogwyr yn wrthdrawiadol." **CBaCh**

> "Mae'r canllawiau gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, Sefydliad Iechyd y Byd ac ASH (Cymru) yn ddryslyd, yn gymaint ag y mae’r safbwyntiau a fynegwyd gan bob un ohonynt o ran budd/niwed i iechyd yn amrywio'n sylweddol." **Cyflogwr mawr**

Roedd rhai ymatebwyr o blaid y defnydd o e-sigaréts oherwydd y manteision iechyd personol ar gyfer y defnyddiwr. Dywedodd un ymatebwr fod y defnydd o e-sigaréts yn y gwaith wedi helpu i staff weithio'n fwy effeithlon:


> "Roedd pawb sy'n defnyddio e-sigaréts yn arfer defnyddio sigaréts [...] mae ganddynt ganiatâd [i ddefnyddio e-sigaréts]. Mae amser sydd wedi ei arbed am nad yw’r staff  yn mynd allan i ysmygu wedi bod yn sylweddol.” **CBaCh**

### 3.5 Rhesymau dros gael polisi e-sigaréts

Gofynnwyd i weithleoedd a oedd â pholisi, neu a oedd wrthi'n datblygu polisi, pam roeddent wedi gwneud felly. O restr o gwestiynau gosod, y rhesymau mwyaf cyffredin a roddwyd oedd: er mwyn dod ag e-sigaréts o dan y polisi di-fwg cyfredol (79 y cant o'r cyflogwyr mawr a 59 y cant o'r cyflogwyr bach a chanolig) ac er mwyn helpu i orfodi'r gwaharddiad ar ysmygu yn y gweithle (71 y cant o'r cyflogwyr mawr a 59 y cant o'r cyflogwyr bach a chanolig).

Dywedodd tua thraean o gyflogwyr mawr a chyflogwyr bach a chanolig mai oherwydd bod e-sigaréts yn gwneud ysmygu tobaco'n ifwy derbyniol ydoedd (Ffigur 3.4).

**Ffigur 3.4: Beth yw'r rhesymau dros gyflwyno polisi neu ddatblygu polisi?**




N=173 (CBaCh = 101; Mawr = (72)
Gall y cyfanswm fod dros 100% gan fod ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un ateb.

Roedd sylwadau ychwanegol a roddwyd gan ymatebwyr yn cynnwys nifer o resymau dros gyflwyno polisi, gan gynnwys cwynion gan staff, cynnal delwedd gyhoeddus dda, a dilyn cyngor gan swyddogion tân:

"Yn sgil cwynion gan rai gweithiwyr gwnaethom benderfynu rhwystro'r defnydd o e-sigaréts. Hefyd er mwyn cynnal delwedd gyhoeddus dda." **CBaCh**


"Rydym yn wasanaeth sy'n delio â'r cyhoedd , a gallai ymddangos fel pe bai staff yn ysmygu. Gallai hefyd droi cwsmeriaid i ffwrdd." **CBaCh**

"Roedd gan swyddogion tân bryderon ynglŷn â gwefrio batris ar y safle." **CBaCh**

### 3.6 Sut y datblygwyd polisïau e-sigaréts

Gofynnwyd i'r gweithleoedd a oedd â pholisi, neu a oedd wrthi'n datblygu polisi, pam roeddent wedi gwneud felly. Fel y dengys Ffigur 3.5, mae'r rhan helaethaf o gyflogwyr bach a chanolig a chyflogwyr mawr yn dweud bod eu polisïau wedi cael eu datblygu trwy ymestyn y polisi di-fwg cyfredol (Ffigur 3.5).

**Ffigur 3.5: Sut y datblygwyd eich polisi e-sigaréts?**




N=170 (CBaCh = 100; Mawr = 70)

Mae sylwadau ychwanegol yn dangos y byddai rhai gweithleoedd a oedd wrthi'n datbygu polisi'n elwa o dderbyn cyngor:


> "Rydym yn aros am gyngor gan y Bwrdd Iechyd" **CBaCh**

> "Rydym wrthi'n ystyried ei ffurfiant a'r hyn y dylid ei gynnwys." **CBaCh**

### 3.7 Pwy mae'r polisïau e-sigaréts yn ei gynnwys

Roedd bron pob polisi e-sigaréts cyfredol, a'r rhai sydd ar y gweill, ymhlith cyflogwyr bach a chanolig a chyflogwyr mawr yn cynnwys staff (99 y cant). Roedd rhwng wyth a naw o bob deg polisi hefyd yn cynnwys cleientiaid a chwsmeriaid, y cyhoedd, cyflenwyr a chontractwyr ac ymwelwyr eraill (Ffigur 3.6).

**Ffigur 3.6: Pwy mae'r polisi'n ei gynnwys?**





N=173 (CBaCh = 101; Mawr = (72)
Gall y cyfanswm fod dros 100% gan fod ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un ateb.

### 3.8 Lleoliadau sy'n dod o dan bolisïau e-sigaréts

Dywedodd bron pob un o'r cyflogwyr mawr a'r cyflogwyr bach a chanolig a oedd â bolisi, neu a oedd wrthi'n datblygu un, fod eu polisïau'n cynnwys mannau caeedig ac adeiladau o fewn y gweithle.

Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau sylweddol rhwng cyflogwyr bach a chanolig a chyflogwyr mawr ynglŷn â ble arall roedd eu polisïau'n berthnasol. Er enghraifft, dywedodd wyth o bob deg o'r cyflogwyr mawr (80 y cant) fod eu polisi yn berthnasol mewn cerbydau, o gymharu â llai na hanner o'r cyflogwyr bach a chanolig (46 y cant), fe y dengys Ffigur 3.7.

**Ffigur 3.7: Sut mae eich polisi'n gwahardd y defnydd o e-sigaréts yn y lleoliadau canlynol?**





N=170 (CBaCh = 99; Mawr (71)
Gall y cyfanswm fod dros 100% gan fod ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un ateb.

### 3.9 Sut ydych chi'n monitro a gorfodi'r polisi

O'r gweithleoedd a oedd â pholisi e-sigaréts, dywedodd tua naw o bob deg o'r cyflogwyr mawr (88 y cant) a'r cyflogwyr bach a chanolig (89 y cant) fod eu polisi'n cael ei fonitro gan reolwyr, tra bod hanner y cyflogwyr mawr (52 y cant) yn dweud ei fod yn cael ei orfodi pan fydd aelod o staff yn gwneud cwyn – bron ddwywaith y canran o'r cyflogwyr bach a chanolig (28 y cant).

Dywedodd tua phedwar o bob deg o'r cyflogwyr mawr fod eu polisi'n cael ei orfodi yn sgil cwyn gan y cyhoedd, cleientiaid/cwsmeriaid neu gyflenwyr/contractwyr, o gymharu â thuag un o bob pump o'r cyflogwyr bach a chanolig (Ffigur 3.8).

**Ffigur 3.8: Sut ydych chi'n monitro a gorfodi'r polisi?**




N=134 (CBaCh = 76; Mawr (58)
Gall y cyfanswm fod dros 100% gan fod ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un ateb.


### 3.10 Effeithiolrwydd canfyddedig polisïau e-sigaréts

Gofynnwyd i'r gweithleoedd a oedd â pholisi ar waith eisoes pa mor effeithiol fu’r polisi wrth wahardd y defnydd o e-sigaréts yn y gweithle.

O'r cyflogwyr bach a chanolig, roedd tua hanner (52 y cant) yn credu bod eu polisi wedi bod yn effeithiol iawn, a thuag un o bob deg (12 y cant) yn credu ei fod wedi bod yn rhannol effeithiol. O'r cyflogwyr mawr, roedd tua phedwar o bob deg (38 y cant) yn credu bod eu polisi wedi bod yn effeithiol iawn, a bron chwarter (22 y cant) yn credu ei fod wedi bod yn rhannol effeithiol.

Dywedodd tuag un o bob pump o’r cyflogwyr mawr (21 y cant) a chwarter o'r cyflogwyr bach a chanolig (25 y cant) ei bod yn rhy gynnar i ddweud (Ffigur 3.9).

**Ffigur 3.9: Pa mor effeithiol fu eich polisi e-sigaréts wrth wahardd y defnydd o e-sigaréts?**




N=135 (CBaCh = 77; Mawr=(58)

Rhoddwyd ychydig o sylwadau ychwanegol gan ymatebwyr ynglŷn ag effeithiolrwydd eu polisïau e-sigaréts, neu sut maent wedi datrys unrhyw ddryswch mewn perthynas â'r defnydd ohonynt a ganiateir:


> "Roedd yn rhaid inni ddatblygu arwyddion newydd a oedd yn hysbysu staff, ymwelwyr, y cyhoedd ac ati na chaniateir y defnydd o sigaréts, oherwydd bu cryn dipyn o ddryswch ynglŷn â'u defnyddio." **Cyflogwr mawr**

> "Y gwir yw nad yw pobl yn ysmygu nac yn defnyddio e-sigaréts mwyach. Mae staff yn deall y polisi ac yn tynnu sylw ymwelwyr ato yn ôl yr angen." **CBaCh**

### 3.11 Bwriadau i wneud newidiadau i bolisïau e-sigaréts

Gofynnwyd i'r gweithleoedd  a oedd â pholisi e-sigaréts eisoes, a oeddent yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau yn ystod y 12 mis nesaf. Cafwyd canlyniadau tebyg ar gyfer CBaCh a chyflogwyr mawr. Dywedodd tua hanner o bob grŵp nad oeddent yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau ar hyn o bryd, ac ychydig iawn yn dweud eu bod yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau yn ystod y 12 mis nesaf (Ffigur 3.10).

**Ffigur 3.10: Ydych chi'n bwriadu gwneud unrhyw newidiadau i'ch polis e-sigaréts?**




N=132 (CBaCh = 76; Mawr (56)

Roedd y rhesymau a roddwyd gan y rhai a oedd yn ystyried gwneud newidiadau pan fydd y polisi'n cael ei ddiwygio yn cynnwys ystyried cyngor meddygol a newidiadau i ddeddfwriaeth:

> "Os bydd canllawiau cenedlaethol ac ymchwil wedi'i ddiweddaru gellid diwygio ein polisi i adlewyrchu hyn." **Cyflogwr mawr**

> "Os yw Cymdeithas Feddygol Prydain yn cadarnhau eu bod yn gwbl ddiniwed i bawb, byddem wedyn yn ystyried newid ein polisi." **CBaCh**

### 3.12 Newidiadau i'r safle ar gyfer defnyddwyr e-sigarét

Gofynnwyd i ymatebwyr a oeddent wedi gwneud addasiadau i safle'r gweithle neu i'r amgylchedd yn enwedig ar gyfer defnyddwyr e-sigaréts. Dim ond tri y cant o ymatebwyr (N=10) a ddywedodd fod newidiadau wedi'u gwneud, a bron pob un ohonynt yn darparu cysgodfeydd allanol ar gyfer defnyddwyr e-sigaréts.

Rydym wrthi'n darparu cysgodfa benodol ar wahân i'r gysgodfa ysmygu ar gyfer defnyddwyr e-sigaréts." **Cyflogwr mawr**

Mae man penodol yn y ffreutur ar gyfer y defnydd o e-sigaréts." **CBaCh**

"Rydym wedi gosod cysgodfa ar gyfer tarthu yn unig, ac wedi ymestyn y man ysmygu cyfredol i gynnwys tarthu er mwyn rhoi dewis i bobl." **Cyflogwr mawr**

## 4. Trafodaeth

Roedd yr arolwg hwn wedi'i gynllunio er mwyn asesu i ba raddau mae gweithleoedd yng Nghymru wedi cyflwyno polisïau ar e-sigaréts. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod nifer o gyfyngiadau. Dewiswyd cynnal yr arolwg ar-lein oherwydd prinder amser ac adnoddau a oedd ar gael er mwyn ymgymryd â'r ymchwil. Fodd bynnag, mae cyfraddau ymateb ar gyfer arolygon ar-lein yn tueddu i fod yn is na dulliau arolwg eraill fel y dull wyneb yn wyneb neu gyfweliadau dros y ffôn[9]. Yn ogystal mae'r posibilrwydd o dueddiad hunanddewis yn y data a dderbynir[10]. Ni fyddai'n afresymol ei gymryd yn ganiataol y byddai ymatebwyr i'r arolwg hwn wedi bod yn fwy tebygol o gyflwyno polisi e-sigaréts na gweithleoedd eraill yng Nghymru, o ystyried y fframwaith samplu a ddefnyddiwyd (e.e. gweithleoedd iach yng Nghymru).

Oherwydd inni dderbyn ymatebion gan 20 y cant o'r gweithleoedd a wahoddwyd i gymryd rhan yn yr arolwg, gellir dweud bod y canfyddiadau'n perthyn i'r gweithleoedd a gymerodd ran, ond nid o reidrwydd i bob gweithle sy'n rhan o fentrau Cymru Iach ar Waith, Safon Iechyd Corfforaethol ac Iechyd y Gweithle Bach.  Mae'n bwysig nodi hefyd, pan fydd dadansoddiadau'n cael cyfyngu i weithleoedd penodol (er enghraifft, dim ond y rhai sydd eisoes â pholisi ar waith), mae maint y sampl yn fach. Rhaid wrth ofal, felly, wrth ddadansoddi'r canfyddiadau.

Roedd tua hanner o'r cyflogwyr mawr a ymatebodd i'r arolwg yn ymwybodol o e-sigaréts yn cael eu defnyddio ar y safle, o gymharu â chwarter o CBaCh Roedd y gwahaniaeth hwn yn y defnydd o e-sigaréts mewn gweithleoedd cyflogwyr mawr a chyflogwyr bach a chanolig yn cael ei adlewyrchu gan y canfyddiad bod tua naw o bob deg o'r cyflogwyr mawr wedi cyflwyno polisi sy'n gwahardd y defnydd o e-sigaréts ar y safle, neu'n bwriadau cyflwyno polisi, o gymharu â llai na hanner o'r cyflogwyr bach a chanolig. Roedd y

[9] Manfreda, K.L. et al (2008). 'Web surveys versus other survey modes: A meta-analysis comparing response rates', *International Journal of Market Research*, 50: 79-104.
[10] Bethlehem, J. (2010). 'Selection bias in web surveys', *International Statistical Review*, 78(2), 161-188.

mwyafrif llethol o'r gweithleoedd a chanddynt bolisi, wedi'i ddatblygu trwy ymestyn y polisi di-fwg cyfredol i gynnwys e-sigaréts.

Y prif reswm a roddwyd dros beidio â datblygu polisi – yn enwedig ymhlith y cyflogwyr bach a chanolig – oedd nad oedd e-sigaréts yn cael eu defnyddio yn y gweithle, ac felly, nid oedd yn cael ei ystyried yn broblem. Dywedodd ychydig o ymatebwyr fod caniatáu'r defnydd o e-sigaréts wedi gwella cynhyrchiant gweithwyr a fyddai fel arall yn cymryd egwyl i ysmygu. Fodd bynnag, oherwydd y negeseuon gwrthdrawiadol ynglŷn ag e-sigaréts, dywedodd rhai yr hoffent dderbyn canllawiau clir gan gyrff iechyd cyhoeddus ar y mater.

Y prif reswm a roddwyd am gyflwyno polisi, ymhlith cyflogwyr bach a chanolig a chyflogwyr mawr fel ei gilydd, oedd i ddod â'r defnydd o e-sigaréts o dan y polisi di-fwg cyfredol a'u helpu i'w orfodi yn y gweithle. Roedd normaleiddio ysmygu i'w weld yn llai o broblem – er i tua thri o bob deg o'r gweithleoedd a ymatebodd ddweud mai 'e-sigaréts yn gwneud ysmygu tobaco yn fwy derbyniol' oedd un o'r rhesymau iddynt ddatblygu polisi. Rhoddwyd cynnal delwedd gyhoeddus dda, ac ymateb i gwynion gan staff hefyd yn rhesymau dros ddatblygu polisi.

Roedd rhai ymatebwyr a ddywedodd eu bod wrthi'n datblygu polisi e-sigaréts hefyd yn gofyn am ganllawiau pellach ynglŷn â'r hyn y dylai polisi o'r fath ei gynnwys – gan godi cwestiynau tebyg i'r rhai nad ydynt wedi datblygu polisi. Gall hyn, felly, fod yn gyfle i gynghorwyr iechyd yn y gweithle ymgysylltu â gweithleoedd a'u cefnogi wrth iddynt wneud penderfyniadau ynglŷn â datblygu polisïau e-sigaréts.

Roedd tua hanner o'r gweithleoedd a chanddynt bolisi e-sigarét yn teimlo ei fod wedi bod yn effeithiol iawn, a thua chwarter yn dweud ei bod yn rhy gynnar i ddweud. Gall cynnal ymchwil tebyg yn y dyfodol helpu i ddeall effeithiolrwydd canfyddedig y polisïau dros gyfnod hirach. Er hynny, dywedodd rhai ymatebwyr – fel arfer sefydliadau sy'n wynebu'r cyhoedd – fod

y polisi wedi eu helpu i ddatrys unrhyw ddryswch ymhlith ymwelwyr ac aelodau'r cyhoedd ynglŷn â'r defnydd o e-sigaréts a ganiateir ar y safle.

Ac i gloi, mae'r canfyddiadau'n awgrymu nad yw cyflwyno polisïau e-sigaréts wedi llywio llawer o gyflogwyr i wneud addasiadau i'r safle er mwyn hwyluso hyn. Dim ond deg  o'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi gwneud addasiadau i’r safle, a'r rhan fwyaf ohonynt yn darparu cysgodfeydd allanol ar gyfer defnyddwyr e-sigaréts.

Dichon y bydd monitro’r gwaith o weithredu polisïau e-sigaréts yn y dyfodol mewn gweithleoedd yn werthfawr i grëwyr polisïau – a byddai cynnal yr arolwg eto'n rhoi'r cyfle i asesu'r newidiadau dros gyfnod o amser, a llunio portread mwy cynrychiadol o weithleoedd ar draws Cymru. A chydag adnoddau ac amser ychwanegol, gellid gwella ansawdd y data. Er enghraifft, gellid defnyddio dulliau eraill o gasglu data, gellid cynnal yr arolwg dros gyfnod hirach o amser er mwyn annog cyfraddau ymateb uwch a gellid defnyddio fframwaith samplu mwy cynhwysfawr.

## Atodiad A: Cwestiynau'r arolwg

Mae hwn yn arolwg byr ynglŷn â pholisïau e-sigaréts a bydd yn cymryd tua phum munud i'w gwblhau.

Diffiniad o e-sigaréts: dyfais yw e-sigarét, sydd â'r brif swyddogaeth o darthu cyfuniad o gemegau a'u cludo i ysgyfaint y defnyddiwr. Mae cyfuniad nodweddiadol yn cynnwys nicotin, propylen glycol a chemegau eraill – er bod rhai yn honni nad oes nicotin ynddynt. Mae steiliau gwahanol o e-sigaréts yn cael eu defnyddio. Mae rhai wedi'u dylunio i edrych fel eu cymheiriaid traddodiadol (tobaco) (e.e., sigaréts, sigarau, sigarilos, pibau, hŵcas a shishas) ac mae eraill, yn ôl disgrifiadau, yn edrych yn debyg i ysgrifbin.

C1 Ydych chi'n ymwybodol o e-sigaréts yn cael eu defnyddio ar y safle?

- Ydyn, yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd .................................................. ☐
- Nac ydyn, ond maent wedi cael eu defnyddio yn y gorffennol........................ ☐
- Nac ydyn, dydyn nhw erioed wedi cael eu defnyddio .................................... ☐

C2 Oes gennych chi bolisi sy'n gwahardd y defnydd o e-sigaréts yn y gweithle?

- Oes, polisi penodol ar gyfer e-sigaréts............................................ ☐ Ewch i C4
- Oes, fel estyniad o'r polisi ysmygu a chamddefnyddio sylweddau ... ☐ Ewch i C4
- Nac oes, ond rydym wrthi'n datblygu polisi....................................... ☐ Ewch i C4
- Nac oes, nid ydym wedi ystyried polisi hyd yn hyn .......................... ☐ Ewch i C3
- Nac oes, rydym wedi penderfynu yn erbyn cyflwyno polisi e-sigaréts................................................................................... ☐ Ewch i C3

Dewiswch un ateb yn unig

C3 Os nad oes gennych bolisi o'r fath, pam?
(Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- Nid yw pobl yn defnyddio e-sigaréts yn y gweithle ........................................ ☐
- Rydym yn ystyried e-sigaréts yn llai niweidiol nag ysgmygu tobaco ............. ☐
- Rydym yn cefnogi’r defnydd o e-sigaréts fel modd o roi'r gorau i ysmygu..... ☐
- Nid ydym wedi cael yr amser hyd yn hyn ...................................................... ☐
- Arall: ............................................................................................................. ☐

C3 Rhowch fanylion ____________________

Dewiswch bob un sy'n berthnasol
Ewch i C11

C4 Beth yw'r rhesymau dros gyflwyno polisi neu ddatblygu polisi?
(Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- Er mwyn ein helpu i orfodi ein polisi di-fwg cyfredol ...................................... ☐
- Rydym yn credu y gallai e-sigaréts fod yn niweidiol i iechyd y defnyddiwr .... ☐
- Rydym yn credu y gallai tarth e-sigaréts fod yn niweidiol i bobl eraill ............ ☐
- Rydym yn credu y bydd e-sigaréts yn gwneud ysmygu tobaco'n fwy derbyniol ........................................................................................................ ☐
- Er mwyn dod ag e-sigaréts yn unol â pholisi di-fwg cyfredol ......................... ☐
- Yn sgil cyngor gan gydlynwyr iechyd yn y gweithle a phobl eraill.................. ☐

Arall: .......................................................................................................... ☐
Rhowch fanylion ____________________________________
____________________________________
__________

C5 Sut y datblygwyd eich polisi e-sigaréts?
Trwy ddefnyddio templed safonol ................................................................ ☐
Yn benodol ar gyfer e-sigaréts ..................................................................... ☐
Rydym wedi ymestyn ein polisi cyfredol ar ysmygu a chamddefnyddio sylweddau i gynnwys e-sigaréts ..................................................................... ☐
Arall: .......................................................................................................... ☐
Rhowch fanylion

C6 Pwy sy’n cael eu cynnwys yn y polisi?
(Dewiswch bob un sy'n berthnasol)
Staff ........................................................................................................... ☐
Cyflenwyr/contractwyr ................................................................................. ☐
Cleientiaid/cwsmeriaid ................................................................................. ☐
Y cyhoedd .................................................................................................... ☐
Ymwelwyr eraill ............................................................................................ ☐

C7 Sut mae eich polisi'n gwahardd y defnydd o e-sigaréts yn y lleoliadau canlynol?
(Dewiswch bob un sy'n berthnasol)
O fewn adeiladau a mannau caeedig yn y gweithle ..................................... ☐
Ar diroedd y busnes (e.e. mannau tu allan) .................................................. ☐
Y tu allan i safle neu diroedd y busnes (e.e. wrth wneud gwaith y busnes yn rhywle arall) ............................................................................................ ☐
Yng ngherbydau'r busnes .............................................................................. ☐

C8 Sut ydych chi'n monitro a gorfodi'r polisi?
(Dewiswch bob un sy'n berthnasol)
Mae'r polisi'n cael ei fonitro gan reolwyr ....................................................... ☐
Pan fyddwn yn derbyn cwyn gan staff ............................................................ ☐
Pan fyddwn yn derbyn cwyn gan gyflenwyr/contractwyr ................................ ☐
Pan fyddwn yn derbyn cwyn gan gleientiaid/cwsmeriaid ................................ ☐
Pan fyddwn y derbyn cwyn gan y cyhoedd ..................................................... ☐
Nid yw'r polisi'n cael ei fonitro/gorfodi ........................................................... ☐
Arall ............................................................................................................ ☐
Rhowch fanylion ____________________________________
____________________________________
__________

C9 Gyda synnwyr trannoeth, pa mor effeithiol fu eich polisi e-sigaréts wrth wahardd y defnydd o e-sigaréts?
Effeithiol iawn ................................................................................................ ☐
Yn rhannol effeithiol ....................................................................................... ☐

Heb fod yn effeithiol ........................................................................ ☐
Yn rhy gynnar i ddweud ........................................................................ ☐
Ddim yn gwybod ........................................................................ ☐
Esboniwch pam ________________________________
________________________________
________

C10 Ydych chi'n bwriadu gwneud unrhyw newidiadau/diwygiadau i'ch polis e-sigaréts?
Ydyn, yn ystod y 12 mis nesaf ........................................................................ ☐
O bosibl, y tro nesaf y byddwn yn diwygio'r polisi ........................................ ☐
Nac ydyn, dim ar hyn o bryd ........................................................................ ☐
Os ydych chi, pa fath o newidiadau ydych chi'n bwriadu eu gwneud? ________________________________
________________________________
________________________________
__________

C11 Ydych chi wedi gwneud unrhyw newidiadau i'r safle/amgylchedd yn enwedig ar gyfer defnyddwyr e-sigaréts? (Er enghraifft, darparu cysgodfa darthu ar wahân ar gyfer defnyddwyr e-sigaréts)
Ydyn ........................................................................ ☐
Nac ydyn ........................................................................ ☐
Os ydych felly, pa newidiadau ydych chi wedi'u gwneud? ________________________________
________________________________
________________________________
______________

C12 Oes hawl gan staff wefrio eu e-sigaréts yn y gwaith?

Oes ........................................................................ ☐
Nac oes ........................................................................ ☐
Ddim yn gwybod ........................................................................ ☐

C13 Beth yw natur eich busnes
Y sector preifat (iechyd) ........................................................................ ☐
Y sector preifat (arall) ........................................................................ ☐
Y sector cyhoeddus (iechyd) ........................................................................ ☐
Y sector cyhoeddus (arall) ........................................................................ ☐
Y sector gwirfoddol/y trydydd sector (iechyd) ........................................ ☐
Y sector gwirfoddol/y trydydd sector (arall) ........................................ ☐
Sector arall ........................................................................ ☐
Rhowch fanylion ________________________________
________________

C14 A oes gennych wobr Safon Iechyd Corfforaethol/Iechyd y Gweithle Bach, neu ydych yn gweithio tuag at un?

- Yn rhan o rwydwaith Cymru Iach ar Waith o gyflogwyr ☐
- Yn gweithio tuag at lefel gwobr ☐
- Wedi cyflawni Efydd ☐
- Wedi cyflawni Arian ☐
- Wedi cyflawni Aur ☐
- Wedi cyflawni Platinwm (Safon Iechyd Corfforaethol) ☐
- Nac oes ☐

C15 Nifer y gweithwyr?

- 0-9 ☐
- 10-49 ☐
- 50-249 ☐
- 250-499 ☐
- 500+ ☐

C16 Beth yw enw eich awdurdod lleol?

- Blaenau Gwent ☐
- Pen-y-bont ar Ogwr ☐
- Caerffili ☐
- Caerdydd ☐
- Sir Gaerfyrddin ☐
- Ceredigion ☐
- Conwy ☐
- Sir Ddinbych ☐
- Sir y Fflint ☐
- Gwynedd ☐
- Ynys Môn ☐
- Merthyr Tudful ☐
- Sir Fynwy ☐
- Castell-nedd Port Talbot ☐
- Casnewydd ☐
- Sir Benfro ☐
- Powys ☐
- Rhondda Cynon Taf ☐
- Abertawe ☐
- Bro Morgannwg ☐
- Torfaen ☐
- Wrecsam ☐

C17 Oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud?

## Atodiad B: Ymatebion yn ôl awdurdod lleol

### Tabl B.1: Beth yw enw eich awdurdod lleol?

| Awdurdod Lleol | **Nifer yr ymatebion i'r arolwg** |
|---|---:|
| Rhondda Cynon Taf | 51 |
| Caerdydd | 50 |
| Caerffili | 36 |
| Wrecsam | 31 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 28 |
| Merthyr Tudful | 27 |
| Abertawe | 25 |
| Casnewydd | 23 |
| Gwynedd | 19 |
| Sir Ddinbych | 18 |
| Sir y Fflint | 18 |
| Torfaen | 17 |
| Bro Morgannwg | 17 |
| Sir Gaerfyrddin | 13 |
| Conwy | 12 |
| Ynys Môn | 12 |
| Sir Fynwy | 12 |
| Castell-nedd Port Talbot | 12 |
| Blaenau Gwent | 10 |
| Ceredigion | 9 |
| Sir Benfro | 8 |
| Powys | 8 |
| **CYMRU** | **295** |
| Cyfradd ymateb | 20% |